

585/51

CYMRAEG – IAITH GYNTAF CY5
(FIRST LANGUAGE)

Y CHWEDLAU, YR HENGERDD A'R CYWYDDAU

(Arholiad Ysgrifenedig)

A.M. DYDD MAWRTH, 13 Mehefin 2006

(2½ awr)

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 12 tudalen.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch y **tri** chwestiwn.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt.

Dylid defnyddio dyfyniadau a themau beirniadaeth lenyddol.

Mae angen i chi ysgrifennu Cymraeg da a chywir a chyflwyno'ch atebion yn drefnus.

Dylech dreulio tuag **AWR** ar gwestiwn 1 a thua **45 munud yr un** ar gwestiynau 2 a 3.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Y mae pob cwestiwn yn gyfwerth o ran marciau.

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na thestunau gosod yn yr arholiad.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

1. Rhyddiaith yr Oesoedd Canol

Darllenwch y darn canlynol ac yna atebwch y cwestiynau.

- (a) Troschwch i Gymraeg llenyddol diweddar **linellau 1-13** ‘Dywedut a oruc yr Eryr... catwent ac ymlad?’ [20]
- (b) Manylwch ar y themâu a geir yn y darn cyfan isod. [10]
- (c) Dadansoddwch arddull y darn cyfan isod gan gyfeirio at enghreifftiau penodol. [20]

Dywedut a oruc yr Eryr, ‘Ehawc Llyn Lliw, mi a deuthum attat gan gennadeu Arthur y ouyn a wdost dim y wrth Vabon uab Modron a ducpwyd yn teir nossic y wrth y uam.’

‘Y gymeint a wypwyf i, mi a’e dywedaf. Gan bob llanw yd af i ar hyt yr auon uchoth hyt pan delwyf hyt ymach mur Kaerloyw. Ac yno y keueis i ny cheueis eirmoet o drwc y gymeint, ac mal y crettoch, doet un ar uyn dwy ysgwyd i yma ohonawch.’

5

Ac ysef yd aeth ar dwy ysgwyd yr Ehawc, Kei a Gwrhwr Gwalstawt Ieithoed. Ac y kerdassant hyt pann deuthant am y uagwyr a’r karcharawr, yny uyd kwynuan a griduan a glywynt am y uagwyr ac wy. Gwrhwr a dywawt, ‘Pa dyn a gwyn yn y maendy hwnn?’

‘Oia wr, yssit le idaw y gwynaw y neb yssyd yma. Mabon uab Modron yssyd yma yg carchar, ac ni charcharwyd neb kyn dostet yn llwrw carchar a mi, na charchar Llund Llaw Ereint neu garchar Greit mab Eri.’

10

‘Oes obeith gennyti ti ar gaffel dy ellwng ae yr eur ae yr aryant ae yr golut presennawl, ae yr catwent ac ymlad?’

‘Y gymeint ohonof i a gaffer, a geffir drwy ymlad.’

Ymchoelut ohonunt wy odyno a dyuot hyt lle yd oed Arthur. Dywedut ohonunt y lle yd oed Mabon uab Modron yg karchar. Gwysyau a oruc Arthur milwyr yr ynys honn a mynet hyt yg Kaerloyw, y lle yd oed Mabon yg karchar. Mynet a oruc Kei a Bedwyr ar dwy yscwyd y pysc. Tra yttoed vilwyr Arthur yn ymlad a’r gaer, rwygaw o Gei y uagwyr a chymryd y carcharawr ar y geuyn, ac ymlad a’r gwyr ual kynt. Atref y doeth Arthur a Mabon gantaw yn ryd.

15

2. Yr Hengerdd

Darllenwch y dyfyniad a ganlyn ac yna atebwch y cwestiynau.

- (a) Nodwch enw'r bardd os yw'n hysbys. [2]
- (b) Rhowch gefndir y gerdd a'r bardd. [20]
- (c) Dadansoddwch arddull y bardd yn y gerdd hon. [20]
- (ch) Esboniwch yn gryno unrhyw **ddau** o'r geiriau/ymadroddion a geir mewn llythrennau *italig* yn y dyfyniad. [8]

STAFELL GYNDDYLAN

*Stafell Gynddylan, ys tywyll heno,
Heb dân, heb wely.
Wylaf wers, tawaf wedy.*

*Stafell Gynddylan, ys tywyll heno,
Heb dân, heb gannwyll.
Namyn Duw, pwy a'm dyry pwyll?*

*Stafell Gynddylan, ys tywyll heno,
Heb dân, heb oleuad,
E[d]lid a'm daw amdanad.*

*Stafell Gynddylan, ys tywyll ei nen
Gwedi['i] gwen gyweithydd.
Gwae ni wna da a'i dyfydd.*

*Stafell Gynddylan, neud athwyd heb wedd,
Mae ym medd dy ysgwyd:
Hyd tra fu, ni bu dollglwyd.*

*Stafell Gynddylan, ys digarad heno
Gwedi yr neb pieuad.
Wi a angau, byr y'm gad!*

*Stafell Gynddylan, nid esmwyth heno
Ar ben craig hydwyth
Heb nêr, heb nifer, heb amwyth.*

*Stafell Gynddylan, ys tywyll heno
Heb dân, heb gerddau.
Dygystudd deurudd dagrau.*

3. Y Cywyddau

(a) Dadansoddwch y gynghanedd yn yr wyth llinell a ganlyn. [8 × 1]

1. Trais mawr, ac ni'm dawr am dŷ,
2. Torraist amod, trist ymy.
3. Tydi sydd, mau gywydd gau,
4. Ar y gwir, rywiog eiriau.
5. Gwae fi fod arch i'th warchae!
6. A thŷ main rhof a thi mae,
7. A chôr eglwys a chreiglen
8. A phwys o bridd a phais bren.

(b) Darllenwch y dyfyniad a ganlyn. Nodwch enw'r bardd. [2]

(c) Gosodwch y dyfyniad yn ei gyd-destun. [20]

(ch) Dadansoddwch arddull y bardd yn y dyfyniad. [20]

Cefais, pan soniais yna,
 Gwypm dig, nid oedd gampau da;
 Haws codi, drygioni drud,
 Yn drwsgl nog yn dra esgud.
 Trewais, ni neidiais yn iach,
 Y grimog, a gwae'r omach,
 Wrth ystlys, ar waith ostler,
 Ystôl groch ffôl, goruwch ffêr.
 Dyfod, bu chwedl edifar,
 I fyny, Cymry a'm câr,
 Trewais, drwg fydd tra awydd,
 Lle y'm rhoed, heb un llam rhwydd,
 Mynych dwyll amwyll ymwrdd,
 Fy nhalcen wrth ben y bwrdd,
 Lle 'dd oedd gawg yrhawg yn rhydd
 A llafar badell efydd.
 Syrthio o'r bwrdd, dragwrdd drefn,
 A'r ddeudrestl a'r holl ddodrefn;
 Rhoi diasbad o'r badell
 I'm hôl, fo'i clywid ymhell;
 Gweiddi, gŵr gorwag oeddwn,
 O'r cawg, a'm cyfarth o'r cŵn.